# Ceisiadau am Dreuliau Aelodau'r Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

24 Medi 2015

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 11 Medi, pan wnaethoch ofyn,

*A fyddech cystal â darparu'r wybodaeth ganlynol?*

1. *Faint o geisiadau am dreuliau a wrthodwyd yn ystod y ddau fis diwethaf?*
2. *Manylion am y ceisiadau a wrthodwyd yn ystod y 12 mis diwethaf*
3. *Y sancsiynau a gymerwyd dros geisiadau ffug*
4. *Enwau'r Aelodau Cynulliad a gyflwynodd geisiadau a wrthodwyd yn ystod y 12 mis diwethaf*
5. *Manylion am arian sy'n ddyledus gan Aelodau'r Cynulliad yn ymwneud â threuliau*
6. *Enwau'r Aelodau Cynulliad y mae arnynt arian yn ymwneud â threuliau*

Byddwn yn ateb pob cwestiwn isod.

*1. Faint o geisiadau am dreuliau a wrthodwyd yn ystod y ddau fis diwethaf?*

Nid oes gennym unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'ch cais.

Mae gan Aelodau'r Cynulliad hawl i adnoddau i gyflogi staff ac i redeg swyddfeydd yn eu hetholaethau fel y gallant ymdrin â phroblemau ac achosion a godir gan y bobl y maent yn eu cynrychioli. Mae ganddynt hefyd hawl i gael eu had-dalu am dreuliau perthnasol a ysgwyddwyd wrth ymgymryd â busnes y Cynulliad.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Buddug.Saer@Cynulliad.Cymru Buddug.Saer@Assembly.Wales
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Mae'r rheolau'n ymwneud â'r hyn y mae ganddynt hawl i wneud cais amdano wedi'u cynnwys mewn dogfen a elwir yn Benderfyniad .

Mae tîm Cymorth Busnes yr Aelodau yn cael ceisiadau dilys a chaiff Aelodau'r Cynulliad eu had-dalu ar ôl iddynt ddangos derbynneb ochr yn ochr â chais dilys. Nid ydynt yn gallu defnyddio cyllid y Cynulliad, felly, cyn sefydlu a yw'r cais yn briodol a dyna pam nad ydym yn cadw'r wybodaeth hon.

*2. Manylion am y ceisiadau a wrthodwyd yn ystod y 12 mis diwethaf*

Gweler ein hateb i gwestiwn 1 uchod.

*3. Y sancsiynau a gymerwyd dros geisiadau ffug.*

Er nad ydym yn cadw cofnod o geisiadau a wrthodwyd, yn ddamcaniaethol, pe bai cais yn cael ei dalu, a'i fod yn dod yn amlwg yn ddiweddarach ei fod yn anghymwys, mae'n bosib y byddai'n cael ei gyfeirio at y Comisiynydd Safonau. Bydd hyn, fodd bynnag, yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos.

*4. Enwau'r Aelodau Cynulliad a gyflwynodd geisiadau a wrthodwyd yn ystod y 12 mis diwethaf*

Gweler ein hateb i gwestiwn 1 uchod.

*5. Manylion am yr arian sy'n ddyledus gan Aelodau'r Cynulliad yn ymwneud â threuliau*

*6. Enwau'r Aelodau Cynulliad y mae arnynt arian yn ymwneud â threuliau*

Nid oes ar unrhyw Aelodau Cynulliad arian i'r Cynulliad yn ymwneud â threuliau.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF